# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar

**Cylch Meithrin Llanarth**

**Y Caban**
**Ysgol Gynradd Llanarth**
**Llanarth**
**Aberaeron**
**SA47 0PA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**12 Rhagfyr 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.ukRhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cafodd Cylch Meithrin Llanarth ei gofrestru yn 2008 ac mae'n darparu gofal sesiynol ar gyfer hyd at 20 o blant o ddwy flwydd oed. Mae'n gweithredu o gaban ar dir Ysgol Gymraeg Llanarth. Mae ar agor rhwng 9am a 11.30am o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Diana Watters a Sian Williams yw'r personau cofrestredig. Diana Watters yw'r person â chyfrifoldeb. Cymraeg yw iaith y gofal. Mae llefydd dechrau'n deg ar gael yn y gwasanaeth.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

1. **Asesiad cyffredinol**

   Mae'r plant sy'n mynd i Gylch Meithrin Llanarth yn hapus iawn ac wedi setlo'n dda. Maent yn cael gofal gan staff tyner, caredig a sefydledig sydd wedi ymrwymo i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'n amlwg bod y plant yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth ac yn cael budd o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio a chyfleoedd chwarae distrwythur. Mae'r rhieni'n hapus â chynnydd eu plant a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

2. **Gwelliannau**

   Roeddent wedi gosod canopi newydd ar gyfer yr ardal awyr agored yn ogystal â phrynu pwll tywod mawr.

3. **Gofynion ac argymhellion**

   Argymhellwn y dylai'r darparwr wneud y canlynol:

   - ffurfioli'r trefniadau i oruchwylio aelodau unigol o'r staff a
   - sicrhau y caiff y cyfarpar diogelwch tân ei wirio'n flynyddol.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Gall y plant yng Nghylch Meithrin Llanarth wneud dewisiadau ac mae'r staff yn gwrando arnynt. Maent yn hapus, yn ddiogel ac yn mwynhau'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Maent yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu hannibyniaeth.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae gan y plant yng Nghylch Meithrin Llanarth ddewis, maent yn cyfathrebu â'i gilydd a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt ac mae'r oedolion hynny'n gwrando arnynt.

Cafodd y plant gyfleoedd yn ystod y sesiwn i wneud dewisiadau. Ar ôl cyrraedd y gwasanaeth, dewisodd y plant o weithgareddau megis jig-sos, chwarae rôl, blociau pren a play dough. Gwnaethant symud o amgylch yn rhydd ac roedd hi'n amlwg eu bod yn gyfarwydd â'r drefn. Y tu allan, roedd y plant yn dewis chwarae yn y gegin fwd, y pwll tywod neu gyda phêl. Ymatebwyd yn gadarnhaol i geisiadau'r plant a gwrandawyd arnynt. Er enghraifft, gofynnodd y plant am amrywiaeth o ffrwythau yn ystod amser byrbryd a gwnaethant eu derbyn. Rhoddodd un plentyn lyfr i aelod o staff a oedd yn eistedd ar y carped ac yna eisteddodd ar lin yr aelod o staff yn syth. Ymatebodd yr aelod o staff yn gadarnhaol ac yna darllenodd y stori i'r plentyn ifanc. Ymatebwyd i gliwiau di-eiriau'r plant yn gadarnhaol. Yn ystod sesiwn symud, cododd un plentyn ifanc ei freichiau i ddangos ei fod am gael cofleidiad. Gwnaeth aelod o staff roi sicrwydd i'r plentyn a'i gofleidio.

Mae gan y plant lais cryf.

### 1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac wedi setlo'n dda yn y gwasanaeth. Maent yn hapus, yn gartrefol ac yn teimlo bod y staff yn eu gwerthfawrogi.

Roedd y plant yn cyrraedd y gwasanaeth yn hapus ac yn ffarwelio â'u gofalwyr. Aeth y plant at y staff am gofleidiadau a sicrwydd ar wahanol adegau yn ystod y sesiwn. Ymatebodd y staff i'r plant mewn ffordd gynnes. Roedd y plant wedi ymlacio ac wedi ymgolli'n llwyr yn eu chwarae. Gwnaethant lenwi eu sosbenni chwarae rôl yn brysur â botymau o'r gornel fathemategol yn ogystal â chwblhau jig-sos a gwneud cacennau play dough. Yn yr awyr agored, eisteddodd y plant yn y pwll tywod gan lenwi bwcedi â thywod neu lenwi cynwysyddion â chompost yn y gegin fwd. Aeth y plant at y staff i siarad â nhw ynglŷn â'u pen-blwyddi neu eitem yr oeddent wedi dod gyda nhw o gartref. Roeddent yn falch pan ymatebodd y staff yn frwdfrydig, gan ofyn am fanylion ynglŷn â'u rhoddion, a dweud wrthynt eu bod yn hoff iawn o degan y plentyn. Gofynnwyd i bob plentyn sut roeddent yn teimlo. Roedd y plant yn gallu disgrifio eu teimladau a gosod eu llun ar y 'llun teimladau' priodol. Roedd holiaduron i rieni yn

cadarnhau bod y plant yn mwynhau treulio amser yn y gwasanaeth. Er enghraifft, ysgrifennodd un rhiant, “My child looks forward to attending every day.”

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n gyson.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dechrau deall eu teimladau ac maent yn gallu rhannu, cymryd eu tro a chydweithredu.

Roedd y plant yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd, mewn parau ac mewn grwpiau bach. Gwnaeth un plentyn a oedd yn cwblhau jig-so roi darn ohono i'w ffrind fel y gallai gwblhau ei jig-so. Roedd y plant a'r staff yn cydweithio i gwblhau jig-so mawr ar y llawr. Rhannodd y plant adnoddau yn hapus yn y pwll tywod, y gegin fwd a'r play dough. Torrodd un plentyn ddarn o'r play dough i'w roi i'w ffrind fel y gallai ymuno â'r chwarae a chasglodd plentyn arall ddau siswrn o'r pot cyn rhoi un i'w ffrind. Roedd y plant yn cynnwys y staff yn eu chwarae ac yn rhoi paneidiau o de a chacennau chwarae rôl iddynt. Gwnaeth y plant esgus bwyta'r cacennau ac yfed y te. Cafodd dau blentyn sgwrs chwarae rôl gyda'i gilydd gan ddefnyddio ffonau symudol ac roedd y plant yn dal dwylo'n hapus i fynd allan. Yn ystod sesiwn symud, daliodd y plant ddwylo a neidio o amgylch yn frwdfrydig i'r gerddoriaeth.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn dangos diddordeb ac yn ymgysylltu â'u chwarae. Maent yn cynnal eu diddordeb mewn gweithgareddau ac yn gyfarwydd â chwarae strwythuredig a rhydd.

Roedd y plant yn archwilio'r amgylchedd yn ddirwystr ac yn mynd i nôl teganau ac adnoddau'n hyderus yn ôl eu dymuniad. Agorodd un plentyn ddrôr yn hapus a chymryd rhuban allan, gan ganolbwyntio ar roi gleiniau arno am beth amser. Treuliodd y plant amser yn torri play dough yn gacennau yn hapus. Gwnaeth y plant ymfywiogi a chyffroi pan oedd hi'n amser mynd tu allan i gymryd rhan yng ngweithgaredd "ffit mewn pump." Dywedodd un plentyn “Let’s go! Let’s go!” i'w ffrind yn gyffrous. Gwrandawodd y plant yn astud ar stori "Popi a Macs." Gwnaethant ateb y cwestiynau ynglŷn â'r cymeriadau a'r digwyddiadau yn y llyfr yn frwdfrydig. Yn ystod sesiwn ganu, arhosodd y plant yn amyneddgar i weld pa brop fyddai'n cael ei ddefnyddio o'r bag caneuon. Er enghraifft, roedd pyped o frân yn sbardun i gân ynglŷn â 'Jac y Do' ac roedd cregyn cneuen goco yn annog cân am geffylau.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu'n fawr iawn.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau a'u hannibyniaeth.

Cofrestrodd y plant eu hunain yn gwbl annibynnol drwy osod eu lluniau ar siart. Gwnaethant hefyd osod llun ohonynt eu hunain ar lun gan nodi sut roeddent yn teimlo.

Er enghraifft, lluniau hapus, trist, crac neu ofnus. Gwnaeth y plant olchi a sychu eu dwylo cyn amser byrbryd. Casglodd y plant eu powlenni lliw personol a dewis pa ffrwyth yr oeddent am ei fwyta. Ar ôl bwyta byrbryd, cafodd y plant wared ar eu gwastraff bwyd mewn bin bwyd ailgylchu a gosod eu powlenni a'u cwpanau gwag ar hambwrdd. Gwnaethant dacluso ar adegau amrywiol yn ystod y sesiwn ac roedd hi'n amlwg eu bod yn gyfarwydd â'r drefn. Cawsant eu hannog i wisgo eu cotiau a chymryd eu bagiau eu hunain ar ddiwedd y sesiwn. Dangosodd y plant sgiliau echddygol manwl da wrth ddefnyddio siswrn i dorri play dough a sgiliau echddygol bras da wrth gymryd rhan mewn gemau â pheli.

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn cael cyfleoedd da i fod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn diwallu anghenion y plant yn gyson am eu bod yn eu hadnabod yn dda. Maent yn ymrwymedig i ddarparu gweithgareddau amrywiol i'r plant.

### Ein canfyddiadau

#### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn ymwybodol o bolisi amddiffyn plant y gwasanaeth a'r weithdrefn i'w dilyn os oes ganddynt bryder am blentyn. Mae'r gwasanaeth yn hybu ffyrdd iach o fyw.

Roedd y staff yn gwybod bod diogelu plant yn flaenoriaeth uchel ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o ddelio â phryderon neu ddatgeliadau pan roddwyd senarios gwahanol iddynt. Roedd y staff wedi diweddaru eu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatreg ac roedd gweithdrefnau clir ar waith i ddelio â digwyddiadau. Roedd y staff a'r rhieni'n llofnodi cofnodion damweiniau a digwyddiadau. Roedd y staff wedi sicrhau bod y plant wedi golchi eu dwylo cyn eistedd i lawr i gael byrbryd. Darparwyd ffrwythau, dŵr a llaeth fel byrbryd iach. Roedd yr ardal awyr agored yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth ac roedd y plant yn cael cyfle i chwarae yn yr awyr agored bob dydd. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn 'traed prysur', jabadao, "ffit mewn pump" a chynllun brwsio dannedd cenedlaethol.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach mewn ffordd fedrus.

#### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae gan y gwasanaeth bolisi ar hybu ymddygiad cadarnhaol ac mae'r staff yn rheoli rhyngweithio mewn ffordd gyson.

Roedd y staff yn canmol y plant am ymddwyn yn dda ac yn ymateb yn garedig i'r plant a oedd am gael cwtsh neu sicrwydd. Rhoddodd y staff sicrwydd i un plentyn y byddai ei rieni yn ei gasglu yn fuan. Eisteddodd y plentyn ar lin yr aelod o staff am rywfaint o amser cyn penderfynu dychwelyd i chwarae. Ymatebodd y staff yn gadarnhaol ac yn gyson drwy gydol y sesiwn. Penderfynodd un plentyn nad oedd am frwsio ei ddannedd. Crwydrodd i ffwrdd o'r bwrdd. Gwnaeth y staff ganmol y plant a wnaeth barhau i frwsio eu dannedd ac yn fuan iawn dychwelodd y plentyn arall i frwsio ei ddannedd. Cafodd y plant eu gwobrwyo am ymddygiad eithriadol o dda gan osod seren yn eu siart. Ar ôl deg seren, roedd y plentyn yn cael mynd â'i siart seren eliffant adref. Pwyntiodd y plant yn gyffrous at eu siart, gan nodi mai dim ond un seren oedd yn weddill ganddynt cyn gallu mynd ag ef adref. Rhoddodd y staff bump uchel a chanmoliaeth i'r plant a gwnaethom eu clywed yn dweud "Da iawn" ac "Ardderchog" ar sawl achlysur.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r plant yn cael gofal gan staff gofalgar a thyner sy'n gwybod am hoffterau a sgiliau unigol y plant.

Roedd y staff yn dilyn egwyddorion y cyfnod sylfaen ac yn cynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar y themâu gwahanol. Cynlluniodd y staff weithgareddau ac ymwelwyr yn seiliedig ar themâu megis ein cartrefi. Roedd pob ardal dan do ac yn yr awyr agored yn cynnwys mwy o bethau yn seiliedig ar y thema. Er enghraifft, roedd ardal adeiladu yn yr awyr agored yn cynnwys sment o flawd corn a phowdwr coco yn ogystal â siop Bob y bildar. Dan do, roedd enwau'r plant ar gyfer cofrestru yn cynnwys lluniau o wahanol gartrefi megis fflatiau, byngalos a thai ar wahân. Roedd nodiadau arsylwi yn cael eu cadw i gofnodi datblygiad y plant ym mhob un o feysydd y cyfnod sylfaen a defnyddiwyd y rhain i gynllunio gweithgareddau. Rhoddodd y staff raglen iaith CHATT ar waith a chadw cofnodion manwl o ddatblygiad pob plentyn yn ogystal â'u targedau unigol. Roedd y gwasanaeth yn cofnodi hoffterau'r plant, fel eu hoff deganau a'u hoff bethau i'w gwneud cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth. Roedd y staff yn sicrhau bod plant ag anghenion ychwanegol yn cael yr un cyfleoedd â'r plant eraill.

Hyrwyddodd y staff chwarae, dysgu a datblygiad y plant mewn ffordd fedrus.

# 3. Yr amgylchedd

## Crynodeb

Mae'r amgylchedd yn galluogi'r plant i chwarae mewn ardal ddiogel gydag amrywiaeth o gyfleoedd ac adnoddau. Mae'r ardal wedi'i threfnu i fodloni pob un o feysydd y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ardal awyr agored yn amgaeedig ac wedi'i datblygu'n dda.

## Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Maent yn sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi a'u dileu i'r graddau sy'n bosibl.

Roedd y drws ar glo bob amser ac roedd llyfr ymwelwyr yn cael ei ddefnyddio. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer yr ardaloedd dan do, yn yr awyr agored ac ymweliadau i'r gymuned. Roedd y staff yn cadw'r safle yn lân ac yn clirio popeth ar ddiwedd pob sesiwn. Gwnaeth yr arweinwyr sicrhau bod y cyfarpar trydan yn cael profion PAT a bod cyfarpar glanhau'n cael ei gadw'n ddiogel mewn cwpwrdd na allai'r plant fynd ato. Profwyd y gwresogyddion trydan yn flynyddol. Roedd y gwasanaeth wedi cofrestru gyda'r asiantaeth safonau bwyd leol, ac roedd wedi cael sgôr o 5. Roedd ymarferion tân yn cael eu cofnodi a'u cynnal yn rheolaidd. Roedd tystysgrif atebolrwydd cyhoeddus gyfredol i'w gweld ar hysbysfwrdd y gwasanaeth.

Mae'r staff yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd yn effeithlon.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r amgylchedd dan do yn groesawgar ac yn addas i blant ac mae llawer o waith y plant ac arddangosfeydd lliwgar i'w gweld. Mae'r ardal awyr agored yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth ac wedi'i ddatblygu'n dda.

Roedd yr amgylchedd dan do wedi cael ei drefnu i gynnwys amrywiaeth o ardaloedd chwarae sy'n addas i blant; chwarae rôl, creadigol, byd bach, darllen, technoleg gwybodaeth, mathemateg, ardal jabadao a gwneud marciau. Roedd arddangosfeydd lliwgar yn cynnwys lluniau'r plant o'u teimladau, ymweliad gan adeiladwr lleol a lluniau'r plant o flodau haul Van Gough. Cafodd adnoddau eu storio ar lefel isel ac roedd y plant yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd. Roedd yr ardal awyr agored wedi'i datblygu'n dda ac yn cynnwys digon o adnoddau. Roedd canopi yn rhoi lloches ac yn galluogi'r plant i ddefnyddio'r ardal awyr agored yn llawn. Trefnwyd yr ardal i gynnwys amrywiaeth o gyfleoedd chwarae gwych. Er enghraifft; cerddoriaeth, cegin fwd, pwll tywod, sied dawel i ddarllen, siop chwarae rôl, gwesty pryfed ac ardal adeiladu.

Mae'r amgylchedd yn eithriadol o addas i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r plant yn cael budd o adnoddau, cyfarpar a theganau o ansawdd da.

Roedd y cyfarpar a'r adnoddau o ansawdd da ac yn addas at y diben. Roedd y staff yn darparu dodrefn o faint sy'n addas i blant er mwyn galluogi'r plant i eistedd wrth fyrddau'n annibynnol a chael gafael ar deganau a chyfarpar. Roedd yr adnoddau a'r cyfarpar mewn cyflwr da ac yn lân. Roedd digon o adnoddau i'r plant ddewis ohonynt. Roedd llyfrau a theganau amlddiwylliannol ar gael ac fe'u defnyddiwyd wrth edrych ar thema benodol, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali,

Mae'r arweinwyr a'r staff yn darparu adnoddau a chyfarpar o ansawdd da ac yn eu cynnal a'u cadw.

# 4. Arwain a Rheoli

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr yng Nghylch Meithrin Llanarth yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda a bod lefelau staffio'n gywir. Maent yn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu a bod y staff yn cael cyfleoedd hyfforddi rheolaidd. Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau da â'r gymuned.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 ac yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig i blant hyd at 12 oed.

Gwnaeth yr arweinwyr sicrhau bod y staff yn rhoi polisïau'r gwasanaeth ar waith yn llawn. Caiff polisïau eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r tîm staff yn cydweithio'n dda gyda chymorth yr arweinwyr. Roedd y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol cenedlaethol, yn cynrychioli'r gwasanaeth yn gywir ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Roedd y staff yn cydweithio'n dda ac roedd yn amlwg bod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni, a roddodd adborth cadarnhaol ar y gwasanaeth. Cadarnhawyd hyn mewn holiaduron i rieni a oedd yn nodi, er enghraifft, “I am very pleased with Cylch Meithrin Llanarth. My child’s speech, development, self-discipline and behaviour has improved. My child speaks very fondly of staff.”

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol yn y gwasanaeth hwn.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn adolygu'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn ystyried barn y plant, y rhieni a'r staff.

Gwnaeth yr arweinwyr adolygu'r gwasanaeth yn flynyddol a llunio adroddiad. Mae'r arweinwyr yn gosod targedau i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth. Roedd adolygiad y llynedd yn tynnu sylw at yr angen i ddatblygu'r ardal awyr agored. Roedd canopi newydd wedi cael ei osod ac roeddent wedi prynu pwll tywod mawr. Roedd adolygiad eleni yn tynnu sylw at yr angen i wella'r adnoddau technoleg gwybodaeth. Roedd yr arweinwyr wedi gwneud cais am grant i brynu cyfarpar TG.

Mae'r trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn dda.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod lefelau staffio'r gwasanaeth yn gywir a bod digon o weithgareddau ar gael i nifer y plant sy'n bresennol.

Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl ddogfennau perthnasol ac roedd yr holl wiriadau angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Roedd gan y staff gymwysterau addas. Roedd arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal ac roeddent yn nodi anghenion hyfforddi a thargedau datblygu personol. Cynhaliwyd cyfarfodydd staff yn wythnosol,

ond ni chafodd sesiynau goruchwylio unigol ffurfiol staff eu cynnal. Roedd yr holl hyfforddiant craidd yn gyfredol ac roedd y staff wedi mynd i nifer o gyrsiau hyfforddi eraill megis; 'the incredible years', Elklan, Iaith Arwyddion Prydain, adeiladu den a jabadao.

Mae'r staff a'r adnoddau eraill yn cael eu rheoli mewn ffordd ddigonol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr a'r staff gydberthnasau da â'r rhieni a gofalwyr. Mae ganddynt gysylltiadau da â'r ysgol y mae'r gwasanaeth yn ei bwydo ac asiantaethau allanol eraill.

Roedd y rhieni a'r gofalwyr wedi siarad yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth a'r staff. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hapus â'r wybodaeth a dderbyniwyd ynglŷn â'r gwasanaeth cyn i'w plentyn ddechrau yn y gwasanaeth. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am ddatblygiad eu plentyn ac roeddent yn hoff iawn o foreau rhieni pan oeddent yn dod i'r gwasanaeth i drafod datblygiad eu plant â'r arweinwyr. Dywedodd y rhieni wrthym hefyd eu bod yn teimlo bod y plant yn cael budd o fod ar safle'r ysgol gan fod hyn yn eu helpu gyda'r broses o bontio i'r ysgol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant ag anghenion ychwanegol yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt drwy ofyn am gymorth a chanllawiau gan asiantaethau allanol. Mae'r arweinwyr yn llunio adroddiadau ysgrifenedig ar ddatblygiad plant i rieni a'r ysgol. Maent yn trefnu ymweliadau trosiannol i'r plant ymweld â'r ysgol.

Mae gan y gwasanaeth bartneriaethau da â'r rhieni a chysylltiadau â'r gymuned ac asiantaethau allanol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwn y dylai'r darparwr wneud y canlynol:

- ffurfioli'r trefniadau i oruchwylio aelodau unigol o staff a
- sicrhau y caiff y cyfarpar diogelwch tân ei wirio'n flynyddol.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 17 Hydref 2018 am 3.5 awr. Rhoddwyd adborth dros y ffôn yn ddiweddarach.

- Gwnaethom archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau gan gynnwys ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, cofnodion hyfforddi, cofnodion damweiniau a chofnodion cynllunio;
- gwnaethom arsylwi'r plant gan ddefnyddio adnodd SOFI (fframwaith arsylwi byr ar gyfer arolygu) er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff a
- gwnaethom siarad â'r rhieni, y staff a'r plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person Cofrestredig** | **Sian Williams**<br>**Diana Watters** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Diana Watters** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **20** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 – 4 oed** |
| **Oriau agor** | **9am-11.30am** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **1 Rhagfyr 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **17 Hydref 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. **Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |